# Ynglŷn â'r TAAU mewn Teithio a Thwristiaeth

Mae'r diwydiant Twristiaeth yn hanfodol i economi a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru, gan gysylltu pobl â chyrchfannau lleol a byd-eang.

Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi cyflwyniad i ddysgwyr i gwmpas y sector, rolau swyddi, a llwybrau gyrfa, ochr yn ochr ag ystyriaethau allweddol fel deddfwriaeth, cynllunio a chynaliadwyedd.

Drwy weithgareddau ymarferol, bydd dysgwyr yn ymchwilio i gyrchfannau, yn cynllunio teithiau, ac yn creu deunyddiau marchnata, gan feithrin hyder a sgiliau trosglwyddadwy wrth iddyn nhw baratoi i astudio ymhellach neu i ddilyn prentisiaethau neu yrfaoedd yn y diwydiant dynamig ac amrywiol hwn.

## Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster hwn?

Mae ein cymhwyster Lefel 1/2 TAAU Teithio a Thwristiaeth wedi'i lunio i fod yn gyfochrog â chymwysterau TGAU, gan gynnig profiad galwedigaethol ymarferol sy'n ehangu dysgu i ddysgwyr 14 i 16 oed mewn ysgolion.

Mae'n darparu sylfaen gadarn o wybodaeth am y diwydiant wrth ddatblygu sgiliau hanfodol, baratoi dysgwyr i astudio ymhellach neu i ddilyn prentisiaethau neu yrfaoedd yn y sector. Mae'n ddelfrydol ar gyfer myfyrwyr sy'n chwilio am brofiad byd go iawn ochr yn ochr ag astudiaeth academaidd, mae'n agor llwybrau i ddiwydiant dynamig sy'n tyfu.

# Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

| Uned | Ffocws |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad i'r Diwydiant Teithio a Thwristiaeth (24 ODA)** | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn archwilio:<br><br>• y gwahanol sectorau yn y diwydiant teithio a thwristiaeth<br>• y gwahanol rolau swyddi, cyfrifoldebau a dilyniant gyrfa yn y diwydiant<br>• nodweddion allweddol yr economi ymwelwyr yng Nghymru. |
| **2. Cyrchfannau Twristiaeth (24 ODA)** | Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn dysgu am y canlynol:<br><br>• cyrchfannau twristiaeth lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a'u nodweddion<br>• cymhelliant twristiaid i deithio<br>• effeithiau teithio a thwristiaeth a ffyrdd y mae modd rheoli'r rhain<br>• sut i ymchwilio i a chyflwyno gwybodaeth sy'n ymwneud â thwristiaeth. |

